

# Arolygiad STIEF y Parc



Ymwelodd yr arolygwyr â'r Sefydliad Troseddwyr Ifanc hwn ym mis Hydref 2023.



Roeddem ni eisiau gwybod a oedd pethau'n well, yr un fath neu'n waeth i garcharorion ers i ni ymweld ddiwethaf yn 2022.



Gwnaethom hyn drwy:

- edrych o gwmpas y Sefydliad Troseddwyr Ifanc
- gofyn i bobl ifanc a staff lenwi holiadur
- siarad â phobl ifanc
- siarad â staff a chynorthwywyr
- darllen dogfennau

# Beth wnaethom ni ei ganfod?



**Roedd pobl ifanc yn teimlo'n ddiogel.** Fe wnaethom ni roi 4 allan o 4 i'r Sefydliad Troseddwyr Ifanc am hyn.



**Roedd y staff yn trin y bobl ifanc yn dda.** Fe wnaethom ni roi 4 allan o 4 i'r Sefydliad Troseddwyr Ifanc am hyn.



**Nid oedd yr addysgu ar gyfer pobl ifanc yn ddigon da.** Fe wnaethom ni roi 2 allan o 4 i'r Sefydliad Troseddwyr Ifanc am hyn.



**Cafodd pobl ifanc help da i baratoi i adael y Sefydliad Troseddwyr Ifanc.** Fe wnaethom ni roi 4 allan o 4 i'r Sefydliad Troseddwyr Ifanc am hyn.

# Beth ddylai'r Sefydliad Troseddwyr Ifanc ei wneud?




Rydym ni eisiau i'r cyfarwyddwr ddarllen ein hadroddiad arolygu. Mae'r adroddiad ar gael yn llyfrgell y Sefydliad Troseddwyr Ifanc.

Rydym ni eisiau i'r cyfarwyddwr wneud cynllun. Dylai'r cynllun ddweud wrthym sut byddan nhw'n datrys y problemau yn STIEF y Parc a gwneud pethau'n well i bobl ifanc.


# Beth ydym ni eisiau ei weld yn digwydd?




Rydym ni eisiau i bobl ifanc gael eu gwahanu am lai o amser. Rydym ni eisiau iddyn nhw gael mwy i'w wneud pan fyddan nhw'n cael eu gwahanu.



Rydym ni eisiau i'r Sefydliad Troseddwyr Ifanc wneud mwy i sicrhau bod pob person ifanc yn cael ei drin yn deg.



Rydym ni eisiau i'r addysgu fod yn well. Rydym ni eisiau i fwy o bobl ifanc gael cymwysterau.



Rydym ni eisiau i'r Sefydliad Troseddwyr Ifanc wneud mwy i helpu pobl ifanc gyda'u sgiliau darllen. Rydym ni eisiau i bobl ifanc allu benthyg llyfrau maen nhw eisiau eu darllen o'r llyfrgell.




Rydym ni eisiau i bobl ifanc allu gweld staff gofal iechyd sydd â sgiliau arbennig, fel therapyddion iaith a lleferydd. Rydym ni eisiau i'r Sefydliad Troseddwyr Ifanc wirio bod pobl ifanc yn cael gofal da.




Rydym ni eisiau i bobl ifanc allu datblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer swydd pan fyddant yn gadael y Sefydliad Troseddwyr Ifanc.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?



Byddwn yn dychwelyd y flwyddyn nesaf i weld pa mor dda mae'r Sefydliad Troseddwyr Ifanc yn ei wneud. Byddwn yn ysgrifennu adroddiad i ddweud wrth bobl beth rydym ni wedi ei ganfod.



Os oes gennych chi gwestiynau, ysgrifennwch atom:

HM Inspectorate of Prisons
3rd Floor
10 South Colonnade
Canary Wharf
London
E14 4PU